***Polisi Parch, Hawliau, Cyfrifoldebau, Ymddygiad a Ffordd Bryn y Môr***

| **Mabwysiadu'r Polisi / Adopted Policy** |
| --- |
| Dyddiad cadarnhau a chymeradwyo gan y Corff Llywodraethu Llawn:<br>Date of confirmation and approval by the Full Governing Body: |
| Dyddiad Adolygu gan y Corff Llywodraethu:<br>Reviwed by Governing body: |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:<br>Signature of the Chair of Governors: |

**Cyflwyniad**

<u>**Gweledigaeth**</u>

**Gweledigaeth Cyngor Abertawe yw** meithrin amgylcheddau ysgol lle mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn trin ei gilydd gyda charedigrwydd ac ystyriaeth ac yn ennyn ymdeimlad o atebolrwydd am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau.

Yn Ysgol ***Bryn y Môr***, rydym yn cefnogi'r weledigaeth hon trwy ein gwelediageth ni:

*Anelwn at dyfu ethos a diwylliant a fydd yn creu cymuned ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol sy'n blaenoriaethu lles, cydraddoldeb a pharch. Hyrwyddwn awyrgylch sy'n meithrin ac yn hybu ein diwylliant, etifeddiaeth a chariad at ein gwlad a'n hiaith mewn cyd-destun lleol, cenedlaethol a byd eang. Darparwn addysg o safon uchel sy'n gytbwys ac eang, sy'n ysbrydoli ac yn ennyn mwynhad, chwilfrydedd a balchder a bydd pedwar diben cwricwlwm i Gymru yn rhan annatod ohoni . Cynigwn brofiadau a fydd yn hyblyg a deinamig sy'n gallu ymateb i ofynion newidiadau yn ein cymuned a'n byd o'n cwmpas. Bydd hyn yn caniatáu i bawb gyrraedd eu llawn botensial ac i fod yn ddisgyblion cymwys am oes.*

<u>**Ein gwerthoedd**</u>



**Nodau**

1. **Hyrwyddo Parch a Chyfrifoldeb**:
    - Meithrin amgylchedd lle mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn trin ei gilydd gyda charedigrwydd ac ystyriaeth.
    - Ennyn ymdeimlad o atebolrwydd am weithredoedd a phenderfyniadau i bob aelod o gymuned yr ysgol.
    - Cefnogi'r nod hwn trwy ymyrraeth gynnar, cymorth a hyfforddiant arbenigol ac atgyfnerthu cadarnhaol.
2. **Annog ymgysylltu rhieni / gofalwyr a'r gymuned ysgol**:
    - Sicrhau bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn deall pwysigrwydd gofalu am ei gilydd ac amgylchedd yr ysgol.
    - Hyrwyddo dinasyddiaeth ddigidol gyfrifol.
    - Atgyfnerthu'r nod hwn trwy gyfranogiad rhieni / gofalwyr, ymgysylltu â'r gymuned, a chefnogaeth gan asiantaethau allanol.
3. **Amgylchedd Cefnogol a Chyson**:
    - Annog cyfathrebu agored, gonest a pharchus ymhlith disgybl, staff, a rhieni / gofalwyr.
    - Adeiladu cymuned ysgol gefnogol a chydweithredol.
    - Cefnogi'r nod hwn gyda pholisïau, gweithdrefnau, canllawiau clir, hyfforddiant a datblygu ac adnoddau.

**Fframwaith Cyfreithiol:** Mae'r polisi hwn yn cael ei arwain gan y fframweithiau cyfreithiol canlynol:

- **Deddf Addysg 1998:** Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i hyrwyddo safonau uchel mewn addysg yn unol â'r Ddeddf hon.
- **Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006:** Rhaid i ysgolion a chyrff llywodraethu fodloni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf hon, sy'n cynnwys hyrwyddo safonau uchel a chyflawni potensial pob dysgwr.
- **Mae Deddf Cydraddoldeb 2010:** Mae'r Ddeddf hon yn amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu oherwydd nodweddion gwarchodedig. Rhaid i ysgolion drin pob myfyriwr a phob aelod o staff yn deg, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ac ati.

**Pwyntiau allweddol y Ddeddf ar gyfer ein hysgol yw:**

Gwahardd gwahaniaethu:

- Dim gwahaniaethu mewn derbyniadau, addysg neu waharddiadau ar sail nodweddion gwarchodedig.
- Dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol: Addasu'r cwricwlwm a'r amgylchedd ar gyfer disgyblion anabl.
- Dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb: Sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl.
- Dyletswydd i atal aflonyddu ac erledigaeth: Atal aflonyddu ac erledigaeth sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig.

- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC): Ystyried effaith polisïau ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Enghreifftiau o wahaniaethu: Yn cynnwys gwrthod derbyn myfyriwr anabl, gosod safonau uwch ar sail hil neu rhyw, neu gosbi honiadau o wahaniaethu.
- Eithriadau: Gall ysgolion un rhyw wrthod y rhyw arall; a gall ysgolion ffydd flaenoriaethu eu haelodau ffydd pan fyddant yn gordanysgrifio.
- Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys awdurdodau lleol ac ysgolion) feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

I'n hysgol mae hyn yn golygu:

- Cynllunio hir dymor: Mae’r ysgol yn ystyried effeithiau hirdymor ar ddisgyblion, cymunedau a'r amgylchedd yn y dyfodol.
- Canolbwyntio ar lesiant: Mae'r Ddeddf yn tynnu sylw at iechyd meddwl, datblygiad holistaidd, ac eco-lythrennedd.
- Mae Cwricwlwm i Gymru yn pwysleisio lles, cydberthynas iach a dinasyddiaeth foesegol.
- Cynaliadwyedd: Annog integreiddio cynaliadwyedd mewn addysg ac arferion, gan hyrwyddo rheoli adnoddau cyfrifol.
- Cydweithredu a chyd-gynhyrchu: Hyrwyddo cydweithredu rhwng ysgolion, cymunedau, a chyrff cyhoeddus i wella llesiant.
- Cynnwys Pobl Ifanc: Ymgysylltu â disgyblion wrth wneud penderfyniadau i lunio eu haddysg a'u dyfodol.

Yn y bôn, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn annog ysgolion i fod yn rhagweithiol wrth greu dyfodol mwy cynaliadwy, teg a llesol i bawb.


**Mae Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP**), gan sicrhau bod yr holl bolisïau’n adlewyrchu egwyddorion y Confensiwn.

Yn ein hysgol, rydym wedi ymrwymo i’r egwyddorion hyn drwy amlygu hawliau plant ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys:

- Dewisiadau cwricwlaidd sy’n hyrwyddo dealltwriaeth o hawliau.
- Gwasanaethau moesegol sy’n gefnogol ac yn diogelu lles a llais y disgybl.
- Pwyllgorau disgyblion sy’n rhoi cyfle i blant gymryd rhan mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt.

Drwy’r dulliau hyn, rydym yn sicrhau bod hawliau’r plentyn yn ganolog i’n diwylliant ysgol ac yn rhan annatod o brofiad y disgyblion.

<u>**Ffordd Bryn y Môr**</u>




Mae holl randdeiliaid yr ysgol yn ymlunio'n llwyr â 'Ffordd Bryn y Môr', sy'n gosod yr ethos a'r diwylliant ar ein cyfer ac er mwyn sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol yn dod yn fyw.

Mae pwyslais clir yn ein hysgol ar ADEILADU PERTHYNAS BOSITIF, CLOD a GWOBRWYO

Yn ein hysgol ni, rydym yn gweithredu 'Ffordd Bryn-y-Môr', sef 4 rheol glir sy'n gosod ein disgwyliadau o ran y ffordd yr ydym yn ymddwyn ac yn trin eraill. Mae hyn yn fodd o hyrwyddo perthynas dda, fel bod pobl yn gallu gweithio gyda'i gilydd gyda'r pwrpas cyffredin o helpu pawb i adeiladu perthnasau iach. Mae'r polisi hwn yn cefnogi cymuned yr ysgol wrth anelu at ganiatáu i bawb gydweithio mewn ffordd effeithiol ac ystyriol.

Mae gan athrawon yr hawl i addysgu, ac mae gan ddisgyblion yr hawl i ddysgu mewn dosbarth sy'n rhydd o ymddygiad aflonyddgar - ystafell ddosbarth sy'n adlewyrchu disgwyliadau ymddygiad yr athrawon eu hunain ac yn creu awyrgylch lle gall hunan-barch a sgliau hunan reoleiddio y disgyblion ffynnu.

Mae'r ysgol yn defnyddio system weledol ar gyfer rheoli ymddygiad drwy Class Dojo i gefnogi ymddygiad cadarnhaol. Caiff sancsiynau eu cymhwyso'n briodol i gynnal rheolau'r ysgol ac i sicrhau amgylchedd dysgu diogel a chefnogol, gyda dull Y Parthau Rheoleiddio yn ategu hyn.

Bob wythnos, caiff disgyblion eu cydnabod am eu cyflawniadau drwy wobr 'Seren yr Wythnos', sy'n dathlu llwyddiant academaidd. Yn ogystal, mae'r wobr 'Gwnewch y Pethau Bychain' yn anrhydeddu disgyblion sy'n dangos gwerthoedd craidd yr ysgol yn eu hymddygiad dyddiol.

Rhoddir gwobr arbennig bob wythnos, sef 'Arwain y Ffordd', i ddisgyblion sydd wedi mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau wrth ddangos ffordd Bryn y Môr. Caiff y disgyblion hyn eu henwebu gan eu cyfoedion neu staff am gyfraniadau eithriadol i fywyd yr ysgol.

Defnyddir atgyfnerthu cadarnhaol i annog ymddygiad da a meithrin ymagwedd at ymgysylltu, perthyn a pherthnasoedd sy'n cefnogi lles yr ysgol gyfan. Yn ein hysgol rydym yn gwneud hyn gan trwy ddefnydd o **Ymarfer Adferol** a meddylfryd 'When the Adults Change' wrth gefnogi disgyblion i ddeall achos ac effaith ymddygiadau ac i feithrin perthynas gwell gyda oedolion a chyfoedion.

**Egwyddorion Ymddygiad:**

Amlinellir yr egwyddorion ymddygiad hyn ym Mholisi Parch, Hawliau a Chyfrifoldeb Cyngor Abertawe ar gyfer ysgolion, ac rydym yn eu rhannu gyda Chyngor Abertawe a phob ysgol arall yn y sir sydd wedi mabwysiadu'r egwyddorion hyn.

- **Parch:** Dylai disgyblion ddangos parch tuag atynt eu hunain, at eraill, ac at eiddo. Mae hyn yn cynnwys trin cyfoedion, staff, ac amgylchedd yr ysgol gydag urddas. Cydnabyddir y gallai fod angen cymorth ar rai disgybl i gyflawni hyn. Mae gan **bob** disgybl yr hawl i ddysgu mewn amgylchedd sy'n rhydd o aflonyddwch. Disgwylir i riant/gofalwyr gael eu trin fel partner cyfartal yn addysg eu plentyn ac yn ei dro barchu arbenigedd proffesiynol staff yr ysgol.
- **Hawliau:** Dylai disgyblion gydnabod eu hawliau i gael eu trin â pharch, caredigrwydd, urddas a dealltwriaeth a pharchu hawliau pobl eraill yn yr un modd. Cydnabyddir y gallai fod angen cymorth ar rai disgybl i gyflawni hyn. Mae gan bob disgybl hawl i ddysgu a dylai weithio ar y cyd â chyfoedion a staff i gyflawni llwyddiant a meithrin amgylchedd dysgu cefnogol.
- Mae gan staff yr ysgol hawl i ddisgwyl gallu gweithio mewn amgylcheddau diogel.
- **Cyfrifoldeb:** Dylid cefnogi disgyblion i gymryd perchnogaeth o'u dysgu trwy fynychu'n rheolaidd a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu. Cydnabyddir y gallai fod angen cymorth ar rai disgyblion i gyflawni hyn. Disgwylir i ddisgyblion wneud dewisiadau sy'n sicrhau eu diogelwch nhw a diogelwch eraill.
- Mae staff yr ysgol wedi ymrwymo i arwain disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a darparu amgylchedd dysgu diddorol.

**Er mwyn cyflawni'r nodau a'r egwyddorion, mae'r polisi hwn yn sefydlu'r disgwyliadau canlynol:**

**Ysgol a Chorff Llywodraethu**

- Byddwn yn gweithredu ac yn cadw at bolisïau a gweithdrefnau cyson i ddatblygu diwylliant o Barch, Hawliau a Chyfrifoldebau.
- Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn weladwy ac yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned ysgol.
- Meithrin atgyfnerthu a pherthnasoedd cadarnhaol.
- Sichau bod aelod o'r corff llywodraethol yn canolbwytio ar les disgyblion.
- Darparu hyfforddiant a datblygiad i staff a disgyblion (lle bo'n briodol e.e Acharwyr Awtistiaeth)
- Ymgysylltu â rhieni / gofalwyr a'r gymuned mewn modd broffesiynol, empathetig a chroesawgar.
- Annog cyfathrebu agored rhwng y cartref a'r ysgol i sicrhau llwyddiant disgyblion.
- Sicrhau cefnogaeth gan asiantaethau allanol. Yn ein hysgol rydym yn gweithio gyda nifer o asiantaethau allanol sy'n gallu darparu help, cefnogaeth ac arweiniad. Rydym yn annog teuluoedd i fanteisio ar y cymorth hwn gan ei fod yn gallu gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc a'u helpu i gyflawni eu gorau. Cefnogir gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol gan yr Awdurdod Lleol.
- Y disgwyliad ar draws pob ysgol yn Abertawe yw bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, a bod rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu. Yn ein hysgol ni, rydym yn gwneud hyn drwy gofnodi digwyddiadau difrifol – megis ymosodiadau corfforol neu eiriol, dwyn, rhegi, ac ymddygiad peryglus – ar ein system gofnodi 'My Concern'.
- Mae ein hysgol yn ymdrechu i gynnal amgylchedd diogel, gofalgar ac sy'n dangos parch at bob aelod o'u cymuned. Mae'n bwysig cydnabod bod gwahaniaeth rhwng cyswllt corfforol, ymyrraeth gorfforol, trin â llaw ac atal, er mwyn cefnogi'r dull o ymyrraeth gorfforol ddiogel ac effeithiol. Yn ein hysgol rydym yn defnyddio strategaethau sy'n cynnwys:
    - Technegau dad-escalu: Mae'r rhain yn nodi ymddygiad sy'n gallu gwaethygu ac yn dangos amrywiaeth o strategaethau sy'n atal, arafu a dad-escalu'r ymddygiad.
    - Cyswllt corfforol: Mae cyswllt corfforol yn rhan hanfodol o ddatblygiad plentyn ifanc ac yn gallu darparu cysur a gofal. Mewn lleoliadau ysgol gynradd, ni fyddai'n anarferol i blentyn geisio cysur corfforol drwy gyffwrdd, megis cwtsh neu ddal llaw oedolyn. Mae angen deall ffiniau clir ynghylch codau ymddygiad, perthnasoedd parchus, cyfathrebu a phroffesiynoldeb.
    - Ymyrraeth gorfforol: Gellir defnyddio ymyrraeth gorfforol i wahanu disgyblion, dad-escalu sefyllfaoedd anodd neu'n syml i hebrwng plant i ffwrdd o sefyllfaoedd beryglus. Ystyrir ymyrraeth gorfforol fel cam olaf i staff ym mhob lleoliad ysgol, i'w ddefnyddio dim ond pan fydd dulliau dad-escalu eraill wedi methu ac mae perygl uniongyrchol yn bresennol. Prif nod unrhyw ymyrraeth gorfforol yw sicrhau diogelwch yr unigolyn mewn argyfwng, y staff, ac eraill o'u cwmpas. Dylai lefel yr ymyrraeth gorfforol a ddefnyddir fod y lleiaf posibl i reoli'r sefyllfa'n ddiogel, fel y nodir yn y canllawiau ar ymyrraeth ddiogel ac effeithiol gan Lywodraeth Cymru.
    - Nid yw'r ysgol yn cefnogi unrhyw ffurf ar atal corfforol.

**Disgyblion**

- Trin eraill gyda pharch a charedigrwydd, dilyn ffordd Bryn y Mor, rheolau'r ysgol a'u siarter dosbarth; ffurfir y rhain gan bod dosbarth ar ddechrau'r flwyddyn ysgol.
- Cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd gan ddangos sgiliau hunanreoleiddio gynyddol soffistiegedig trwy ddefnydd o'r parthau rheoleiddio.
- Ymgysylltu'n gadarnhaol â pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol.

Mae gennym y gweithdrefnau canlynol ar gyfer osgoi, dad-ddwysáu ac ymateb i achosion o ymddygiad amhriodol yn cynnwys:

- Bwlio a hiliaeth – Mae bob amser yn ymddygiad annerbyniol ac mae gan yr Ysgol bolisiau yn gosod disgwyliad ar y ddwy elfen hon.
- Mae ymddygiad peryglus ac anghyfrifol, iaith wael a rhegi yn annerbyniol.
- Disgwylir i ddisgyblion gerdded o gwmpas yr ysgol a gwneud ffordd neu ddal drysau ar agor i blant iau ac oedolion
- Dylid cadw'r ysgol mor 'Ecogyfeillgar' â phosibl. Mae sbwriel i'w roi yn y biniau a ddarperir o gwmpas yr ysgol. Rydym yn ailgylchu cardiau, papur, cardbord a photeli plastig. Rydym yn diffodd trydan pan nad oes ei angen, cadw drysau ynghau a diffodd tapiau ar ôl eu defnyddio. Rydym yn ailgylchu gwastraff bwyd yn y biniau priodol.
- Ni ddylai disgyblion ddod â theganau na gêmau i'r ysgol, ag eithrio gyda chaniatâd arbennig, e.e. fel rhan o brosiect dosbarth. I'r rhai sy'n anwybyddu'r rheol hon, ac y mae eu heiddo'n diflannu neu'n cael eu torri, ni fydd yr ysgol yn gyfrifol.
- Rydym yn 'Ysgol Iach' ac yn ymwybodol o berygl tagu, felly nid ydym yn caniatau gwm cnoi, melysion na lolipops yn yr ysgol.
- O ran diogelwch, ni ddylai disgyblion fod yn adeiladau'r ysgol cyn i'r ysgol ddechrau am 8.35am (heblaw'r rhai sy'n mynychu Clwb Brecwast), ar ôl gorffen yr ysgol (heblaw'r rhai sy'n mynychu clybiau ar ôl ysgol) nac yn ystod amser chwarae, ag eithrio gyda chaniatâd arbennig.
- Disgwylir i blant wisgo dillad ac esgidiau addas ar gyfer y diwrnod ysgol. Ni chaniateir gemwaith heblaw am styds clustiau. Mae angen dillad addas ar gyfer ymarfer corff a chwaraeon i'r ysgol ar y diwrnodau pan maent yn derbyn gwersi. Pan fo gwersi nofio, disgwylir iddynt ddod â gwisg nofio ar y diwrnod priodol. N.B Ni ddylai unrhyw un wisgo gemwaith yn ystod gwersi chwaraeon.
- O ran dioglewch, nid ydym yn caniatau poteli diod sy'n gallu torri i'r ysgol. Mae gwydr yn bergylus.
- Fel 'Ysgol Iach', nid ydym chwaith yn canaiatau diodydd swigoglyd a melys.

**Rhiant / Gofalwyr**

- Cefnogi polisi ymddygiad yr ysgol ac arwyddo'r Cytundeb Ysgol-Cartref.
- Ymgysylltu â chymuned yr ysgol mewn modd cefnogol a chwrtais. Ni fyddwn yn goddef trais nac ymddygiad sarhaus tuag at staff. Bydd rhieni neu oedolion sy'n ymweld â'r safle sy'n ymddwyn yn ymosodol neu dreisgar, yn cael eu gofyn i adael safle'r ysgol. Os bydd rhieni, gofalwyr neu oedolion yn ymddwyn yn ymosodol dros y ffôn, bydd yr alwad yn cael ei therfynu. Mewn achosion difrifol, gall enw'r oedolyn gael ei adrodd i'r awdurdod lleol, neu gall yr heddlu gael eu galw.

- **Hyrwyddo ymddygiad cyfrifol yn y cartref**. Mae rhieni/gofalwyr yn bartneriaid hanfodol wrth atgyfnerthu ymddygiad priodol ac wrth gefnogi disgwyliadau ymddygiad yr ysgol.
- Os oes angen unrhyw gymorth arnoch gan yr ysgol, gallwn gynnig i chi gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cartref. Os oes angen cymorth gan asiantaethau allanol, gallwn eich cyfeirio atynt. Mae'r Pecyn Cymorth hefyd wedi awgrymu adnoddau defnyddiol. 🔧 Pecyn cymorth

**Archwilio Ymddygiad**

Disgwylir i bob partner ysgol ddeall bod ymddygiad negyddol fel arfer yn ymateb i faterion ehangach. Ffordd o gyfathrebu yw pob math o ymddygiad, ac mae'n bwysig archwilio'r ffactorau sy'n sail i'r ymddygiad.

Gall yr achosion gynnwys:

- Profiadau emosiynol neu gymdeithasol anodd.
- Heriau emosiynol neu ddatblygiadol.
- Amgylchiadau teuluol ansefydlog.
- Dewisiadau rhianta, megis diffyg ffiniau clir, dulliau anghyson, neu ddiffyg modelu ymddygiad cadarnhaol.
- Profiadau trawmatig neu straen parhaus.
- Diffyg cefnogaeth neu ddealltwriaeth o anghenion unigol y disgybl (megis ADY).

Dylid ystyried disgybl sy'n cyflwyno ymddygiad heriol fel unigolyn sy'n agored i niwed, yn hytrach nag yn heriol. Er nad yw ymddygiad negyddol yn dderbyniol, disgwylir bod cefnogaeth ar gael i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Gall sancsiynau hefyd fod yn briodol, ond dylent fod yn gymesur ac yn rhan o ymateb ehangach sy'n hyrwyddo dealltwriaeth a newid cadarnhaol.

Mae Cyngor Abertawe yn cefnogi unrhyw ysgol sy'n cymryd camau rhesymol a chymesur i gynnal iechyd, diogelwch a lles **pob** partner ysgol – cyn belled â bod y camau hyn yn cael eu cymryd o fewn y fframweithiau deddfwriaethol a pholisïau perthnasol.

**Mae strategaethau cymorth yn cynnwys:**

- **Ymyrraeth a Chymorth Cynnar**: Gweithredu rhaglenni ymyrraeth gynnar a darparu cymorth i ddisgybl ag anghenion ychwanegol. Mae hyn yn dechrau gyda chwricwlwm ac amgylchedd cynhwysol a diddorol. Mae hefyd yn cynnwys ymatebion graddedig ac addasiadau rhesymol. Yn ein hysgol rydym yn gwneud hyn gan ddefnyddio'r parthau rheoleiddio a thrwy prosesau ymateb graddoledig o fewn yr ysgol (megis rhaglenni fel ELSA a gwaith gyda'r swyddog bugeiliol).
- **Hyfforddiant a Datblygu**: Cynnig hyfforddiant a datblygiad parhaus i staff reoli ymddygiad yn effeithiol.
- **Cyfranogiad Rhieni**: Annog a hwyluso cyfranogiad rhieni mewn gweithgareddau ysgol a datblygu polisi ac ymateb graddoelig e.e Cynllun Bugeiliol a Rhagweithiol.

- **Polisïau a Gweithdrefnau Cyson**: Datblygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau cyson ar gyfer rheoli ymddygiad.
- **Atgyfnerthu Cadarnhaol**: Defnyddio atgyfnerthu cadarnhaol i annog ymddygiad da a meithrin ymagwedd at ymgysylltu, perthyn a pherthnasoedd sy'n cefnogi lles yr ysgol gyfan. Yn ein hysgol rydym yn gwneud hyn gan trwy ddefnydd o *Ymarfer Adferol* a meddylfryd 'When the Adults Change' wrth gefnogi disgyblion i ddeall achos ac effaith ymddygiadau ac i feithrin perthynas gwell gyda oedolion a chyfoedion.
- **Cyllid ac Adnoddau**: Sicrhau bod cyllid ac adnoddau digonol ar gael i gefnogi mentrau rheoli ymddygiad.
- **Cymorth a Hyfforddiant Arbenigol**: Darparu mynediad at gymorth a hyfforddiant arbenigol i staff a disgybl.
- **Ymgysylltu â'r Gymuned**: Ymgysylltu â'r gymuned ehangach i gefnogi'r polisi ymddygiad
- **Cymorth gan Asiantaethau Allanol**: Cydweithio ag asiantaethau allanol i ddarparu cymorth ac adnoddau ychwanegol.

## Y Penderfyniad i Wahardd

Yn yr achosion canlynol yn unig y bydd yr ysgol yn penderfynu gwahardd disgybl:

- mewn ymateb i ddigwyddiad sy'n golygu bod polisi ymddygiad yr ysgol wedi'i dorri yn ddifrifol
  ac
- os byddai caniatáu i'r disgybl aros yn yr ysgol yn cael effaith andwyol ddifrifol ar addysg neu les y dysgwr hwnnw neu eraill yn yr ysgol

Y pennaeth yn unig a all wahardd disgybl. Os ydynt yn absennol o'r ysgol, yna gall yr athro/athrawes sy'n dirprwyo arfer yr hawl i wahardd, ond dylai wneud yn glir mai gweithredu yn absenoldeb y pennaeth y mae.

Mae'r penderfyniad i wahardd disgybl yn fyr dymor neu'n barhaol yn un difrifol. Fel rheol, dyma'r cam olaf mewn proses ar gyfer delio â throseddau disgyblu yn dilyn ystod eang o strategaethau eraill sydd wedi bod yn aflwyddiannus. Mae'n gydnabyddiaeth gan yr ysgol ei bod wedi rhoi cynnig ar bob strategaeth bosibl i ddelio â'r disgybl, a'r rheini wedi bod yn aflwyddiannus, ac fel rheol dim ond fel cam olaf y dylid ystyried gwaharddiad parhaol.

Gall ymddygiad rhai dysgwyr fod yn arbennig o anodd amser cinio. Os felly, gallai fod modd trefnu i'r disgybl fynd adref am ginio, trwy drafod gyda'r rhieni neu'r gofalwyr a chael eu cytundeb. Os na ellir gwneud hynny, mae darpariaeth ar gael i wahardd y disgybl dros amser cinio, gan roi'r cyfrifoldeb cyfreithiol am y disgybl yn ôl i'r rhiant neu'r gofalwr.

Gall disgyblion gael eu tynnu o ddosbarth, fel mesur sy'n sefyll ar ei ben ei hun, fel rhan o ystod yr ysgol o sancsiynau yn erbyn ymddygiad aflonyddgar. Serch hynny, ni ddylid tynnu disgybl yn rheolaidd o wersi penodol fel ffordd o ddelio ag ymddygiad aflonyddgar oni bai fod trefniadau addas eraill wedi'u gwneud ar gyfer addysgu'r disgybl. Yn yr amgylchiadau hyn dylai'r sefyllfa gael ei thrafod gyda'r rhiant neu ofalwr a'r dysgwr a dylai'r ysgol adolygu'r trefniadau yn rheolaidd gyda'r nod o gael y disgybl yn ôl i'r gwersi. Nid yw tynnu disgybl o wersi penodol yn cael ei gyfrif yn waharddiad.

Serch hynny, fe fydd amgylchiadau eithriadol lle mae'r pennaeth o'r farn ei bod yn briodol i wahardd disgybl yn barhaol am drosedd gyntaf neu drosedd sy'n sefyll ar ei phen ei hun.

Gallai'r rheini gynnwys:

- trais difrifol wedi'i gyflawni neu wedi'i fygwth yn erbyn dysgwr arall neu aelod o'r staff
- camdriniaeth neu ymosodiad rhywiol
- cyflenwi cyffur anghyfreithlon
- defnyddio neu fygwth defnyddio arf peryglus

Ar gyfer disgybl sydd ag **Anghenion Dysgu Ychwanego**l mi fydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i osgoi gwahardd disgybl sy'n ymwneud â phroses o dan y system ADY. Mi fydd yr ysgol yn cydweithio gyda'r holl gymuned addysg i sicrhau bod addasiadau rhesymol priodol yn eu lle mewn perthynas â rheoli ymddygiad y disgybl.

Mewn achosion eithafol, bydd yr ysgol yn ystyried gwahardd disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol os bydd yr ymddygiad yn bodloni y tri nod cyfreithlon dros wahardd disgybl yng Nghymru. Sef:

- Mewn ymateb i doriadau difrifol ar bolisi ymddygiad yr ysgol- Mae hyn yn cynnwys ymddygiad afreolus parhaus neu ddigwyddiad unigol difrifol sy'n torri cod ymddygiad yr ysgol.
- Pe bai caniatáu i'r disgybl aros yn yr ysgol yn niweidio'n ddifrifol addysg disgyblion eraill. Er enghraifft, os yw ymddygiad y disgybl yn tarfu'n sylweddol ar yr amgylchedd dysgu.
- Pe bai caniatáu i'r disgybl aros yn yr ysgol yn niweidio'n ddifrifol les y disgybl neu eraill yn yr ysgol - Mae hyn yn cynnwys pryderon am ddiogelu neu fygythiadau i les corfforol neu emosiynol.

**Adrodd:**

Mi fydd gwaharddiadau yn cael eu hadrodd i'r Isbwyllgor Llywodraethwyr - Disgyblu a Gwardd Disgyblion. Mi fydd yr ysgol yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru

**<u>Atodiadau</u>**

**Atodiad A: Rolau a Chyfrifoldebau Allweddol yn ein hysgol.**

Enw'r Rôl / Teitl y Swydd:

| Rôl / Teitl y Swydd | Enw |
|---|---|
| Pennaeth | Elin Wakeham |
| Arweinydd Diogelu Dynodedig<br>Dirprwy Arweinydd Diogelu Dynodedig | Elin Wakeham<br>Linda Williams |
| Cydlynydd dynodedig ynghylch Disgyblion sy'n Derbyn Gofal (CLA) | Rebecca Harris Jenkins |
| Tim Lles | Rebecca Harris Jenkins (Arweinydd Cynhwysiant)<br>Maggie Bassett – Gofal Bugeiliol ac ELSA<br>Amy Smart (Arweinydd MDaPh ac Arweinydd Ysgol sy'n ystyriol o drawma)<br>Linda Williams - Lles Staff |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | Anna Evans |
| Llywodraethwr Diogelu Enwebedig | Amy Rees Griffiths |
| Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd | Cerri Elimelech |

**<u>Cysylltiadau Awdurdodau Lleol</u>**

**<u>Y Gyfarwyddiaeth Addysg</u>**

Ymholiadau cyffredinol – education@swansea.gov.uk

Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol - ALNIT@Swansea.gov.uk

Diogelu Arweinwyr – Lisa.collins@swansea.gov.uk

Helen.Howells@swansea.gov.uk

Cyfeiriadur Addysg - Live

**<u>Gwasanaethau Disgyblion a Theuluoedd</u>**:

<u>Pwynt Cyswllt Sengl Abertawe (SPOC)</u>

singlepointofcontact@swansea.gov.uk

Ffôn: 01792 635700
Os yw'r achos yn agored i weithiwr cymdeithasol, ffoniwch: 01792 635180.

Mae'r Tîm Dyletswydd Brys ar gael y tu allan i oriau gwaith arferol ar: 01792 775501.

Heddlu: 101 neu mewn argyfyngau 999